Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Ymateb i ymgynghoriad

## Dogfennau canllaw arfer da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol i gefnogi diwygio rheoleiddio

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)**

**Cyflwynwyd 15 Ebrill 2024**

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.

Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

ombwdsmon.cymru

Rydym yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y cynigion hyn. Mae gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) y ddyletswydd a'r fraint o gyflawni cyfiawnder i unigolion sydd wedi'u trin yn annheg gan wasanaethau cyhoeddus neu eu cynrychiolwyr etholedig lleol. Rôl OGCC yw:

- ystyried cwynion bod rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gwasanaethau cyhoeddus Cymru;
- ystyried cwynion bod cynghorwyr yng Nghymru wedi torri eu Cod Ymddygiad;
- gweithio gyda chyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

## Sylwadau cyffredinol

Rydym yn deall pwysigrwydd y ddwy ddogfen ganllaw o ran llunio arferion rheoleiddio. Ar y cyfan, rydym yn gadarnhaol ynghylch canllawiau sy'n ceisio gwella arferion gorau mewn swyddogaethau rheoleiddwyr, gan sicrhau canlyniadau gwell i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, a'r cyhoedd. Rydym yn cefnogi gwelliant sy'n rhoi mwy o hyblygrwydd, gan ei fod er budd y cyhoedd i ddatrys pryderon yn gyflym.

### Defnyddio canlyniadau a dderbynnir mewn addasrwydd i ymarfer: Canllawiau i reoleiddwyr


Mae canllawiau drafft y PSA ar ganlyniadau a dderbynnir yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i reoleiddwyr a rhaglen diwygio rheoleiddiol Llywodraeth y DU, gyda'i bwyslais ar ddefnyddio canlyniadau derbyniol fel rhan o brosesau addasrwydd i ymarfer. Rydym yn gwerthfawrogi'r ffocws gan y PSA ar egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir, gan sicrhau bod canlyniadau derbyniol yn cael eu cymhwyso'n gyson, yn briodol, yn gymesur ac yn dryloyw.

### Arfer da wrth lunio rheolau – Egwyddorion a chanllawiau i reoleiddwyr ar ddatblygu, gwneud a diwygio rheolau:

Mae canllawiau drafft y PSA ar wneud rheolau yn amserol, o ystyried y diwygiadau deddfwriaethol sy'n grymuso rheoleiddwyr i wneud a diwygio eu rheolau gweithredol eu hunain. Rydym yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir yn y canllawiau, gan dynnu sylw at ddiogelu'r cyhoedd a datblygu rheolau'n effeithiol. Rydym hefyd yn cefnogi'r angen am gysondeb rheoleiddiol. Pan aiff pethau o chwith, fel y gwnânt bob tro, mae cymhlethdod ac afreoleidd-dra ar draws y gwahanol broffesiynau sy'n gyfrifol am iechyd a gofal, yn gosod rhwystrau ychwanegol i bobl sy'n ceisio cyfiawnder, yn aml pan fyddant fwyaf agored i niwed.  Mae cysondeb hefyd yn galluogi rheoleiddwyr i gymryd agwedd gydgysylltiedig wrth ystyried unrhyw ganfyddiadau ac argymhellion a wneir gan gynllun ombwdsmon a all fod yn berthnasol.

## Sylwadau cloi

Rydym yn hyderu y bydd y sylwadau hyn yn ddefnyddiol i chi.  Os hoffech drafod unrhyw rai o’m pwyntiau ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â Tanya Nash, ein Pennaeth Polisi Dros Dro (tanya.nash@ombwdsmon.cymru).



**Michelle Morris**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Ebrill 2024